OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 3232 (Cy.280)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *8 Rhagfyr 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Rhagfyr 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 140(4), a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1992" ("*the 1992 Regulations*") yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**2**).

### Diwygio Rheoliadau 1992

**3.** O ran y blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2005, diwygir Atodlenni 2 a 4 i Reoliadau 1992 fel a ganlyn:—

(a) ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2, yn lle "0.998" rhoddir "1.009"; a

(b) yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992, rhoddir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1988 p.41. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 1992/3238, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy.47), 2000/3382 (Cy.220), 2001/3910 (Cy.322), 2002/3054 (Cy.289) a 2003/3211 (Cy.304).

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*

8 Rhagfyr 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

YR ATODLEN

Rheoliad 2

"SCHEDULE 4

Regulation 6

ADULT POPULATION FIGURES

| **Billing authority area** | **Prescribed figure** |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 52,800 |
| Bridgend | 100,400 |
| Caerphilly | 129,500 |
| Carmarthenshire | 137,600 |
| Cardiff | 245,500 |
| Ceredigion | 62,900 |
| Conwy | 88,100 |
| Denbighshire | 74,100 |
| Flintshire | 115,600 |
| Gwynedd | 92,300 |
| Isle of Anglesey | 53,600 |
| Merthyr Tydfil | 42,300 |
| Monmouthshire | 67,000 |
| Neath Port Talbot | 105,700 |
| Newport | 105,100 |
| Pembrokeshire | 90,000 |
| Powys | 101,600 |
| Rhondda Cynon Taf | 178,200 |
| Swansea | 177,400 |
| Torfaen | 69,400 |
| Vale of Glamorgan (The) | 92,500 |
| Wrexham | 101,300" |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**4**) mae'n ofynnol i awdurdodau bilio yng Nghymru dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rheolau ar gyfer cyfrifo'r symiau hynny wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**5**) ("Rheoliadau 1992").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi lluosydd newydd ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 (Rhagdybiaethau ynglŷn â'r swm gros), ac Atodlen 4 newydd (Ffigurau Poblogaeth Oedolion).

(**4**) 1988 p.41.
(**5**) O.S. 1992/3238